Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: ATISN 15019
Dyddiad: 19 Ebrill 2021

Annwyl

ATISN 15019

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 18 Mawrth 2021. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

Y ffigurau canlynol, ar gyfer asesiadau athrawon 2019 a 2020 ar wahân, ar gyfer Cymru gyfan a fesul awdurdod lleol:

(a) Am y Cyfnod Sylfaen:

1. cyfanswm nifer y disgyblion a aseswyd am y Dangosydd Cyfnod Sylfaen.
2. cyfanswm nifer y disgyblion a aseswyd yn Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu-Cymraeg.

(b) Am Gyfnod Allweddol 2 a 3 ar wahân:

1. cyfanswm nifer y disgyblion a aseswyd am y Dangosydd Pynciau Craidd.
2. cyfanswm nifer y disgyblion a aseswyd mewn Cymraeg.

Gallaf gadarnhau bod data 2019 a ddarparwyd i chi ym mis Medi 2019 yn derfynol ac ni chafwyd diweddariad. Gallaf hefyd gadarnhau na chasglwyd data yn haf 2020 oherwydd bod yr ysgolion ar gau o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.org.uk

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir